

DANGOSFWRDD CIG COCH

Medi 2020 – Rhagfyr 2020

% o'r holl weithgaredd yn ystod y chwarter hwn sy'n berthnasol i'r sector cig coch



Rhwydwaith Arddangos

Bodwi: Adolygu'r fenter magu teirw biff drwy archwilio buddion posibl cnydau a dyfir gartref

Cafodd cyfanswm o 75 o loi gwryw eu diddyfnu ar ddechrau mis Hydref ar diet o haidd wedi'i rollo a silwair glaswellt. Hyd yma, mae'r lloi yn bwyta'r silwair yn dda, ac mae'r haidd yn cael ei ychwanegu ar ben y silwair. Mae'r haidd wedi'i drin yn cael ei fwydo ad-lib.

Nid oedd y lloi'n cael dwysfwyd eleni cyn diddyfnu fel sy'n digwydd fel arfer. Roedd hyn yn bennaf er mwyn osgoi cywasgu a photsio'r caeau oherwydd niferoedd uwch o wartheg. Roedd cyflwyno system bori cylchdro yn ogystal â thyfu digonedd o laswellt yn golygu bod y lloi wedi'u diddyfnu'n drymach eleni nag yn y blynyddoedd blaenorol. Anfonwyd sampl o'r haidd wedi'i drin a heb ei drin i gael ei ddadansoddi, ac roedd y canlyniadau'n dangos bod y cynnwys protein crai yn uchel yn yr haidd wedi'i drin, sef 15.72% o'i gymharu â 8.9% a 9.7% cyn ei drin.

Mae'r lloi ar hyn o bryd yn bwyta rhwng 3-4 kg/pen/dydd o Alkagrain. Mae gwariant eleni yn sylweddol is na'r llynedd gan eu bod wedi prynu llai o ddwysfwyd ac wedi cynhyrchu digon o wellt. Mae'r ffermwyr yn ystyried cynhyrchu gwair ar y fferm y flwyddyn nesaf, gan fod ansawdd y silwair a gynhyrchwyd eleni braidd yn fiwtyrig.

Bydd elfen ychwanegol i'r prosiect ar gyfer yr ail flwyddyn yn cynnwys cyfrifo ôl troed carbon y fenter biff ar fferm Bodwi. Bydd y gwaith o ddadansoddi'r ôl troed carbon yn cael ei wneud rhwng mis Ebrill-Mai 2021 gan y bydd y ffermwyr wedi casglu'r holl ddata ar berfformiad y teirw biff a'r haidd erbyn hynny.



Bydd yr ymarfer cyfrif ôl troed carbon yn canolbwyntio ar effaith newid o fwydo dwysfwyd a brynir i mewn i haidd a dyfir gartref ar ôl troed carbon y fferm (gyda'r holl fewnbynnau amrywiol eraill yn aros yn gyson rhwng y blynyddoedd).


Ffigwr 1. Lloi wedi'u diddyfnu'n cael eu cadw dan do ar safle arddangos Bodwi

Hendre Ifan Goch: Gwella rheolaeth pridd a da byw i ddatblygu gallu dal carbon y pridd

Mae safle arddangos Hendre Ifan Goch wedi bod yn gweithio gyda Farm Carbon Toolkit trwy ddefnyddio eu Cyfrifiannell Carbon Fferm i gyfrifo ôl troed carbon y fferm. Cyflwynwyd data busnes perthnasol ar gyfer y fferm drwy'r adnodd ar-lein i gyfrifo'r ôl troed carbon.

Mae'r adnodd cyfrifo carbon penodol hwn yn ystyried gallu'r pridd i ddal a storio carbon, ac felly'n cyfrifo'r cydbwysedd rhwng allyriadau'r fferm a'r hyn sy'n cael ei ddal o fewn y priddoedd. Mae adroddiad terfynol yr Adnodd Cyfrifo Carbon Fferm (Farm Carbon Toolkit) yn dangos bod Hendre Ifan Goch ar hyn o bryd yn dal -197.01 tonnall o garbon y flwyddyn.


Ffigwr 2. Graff yn crynhoi ffigurau dal a storio carbon ar fferm Hendre Ifan Goch gan ddefnyddio canlyniadau gwirioneddol y samplau pridd – Tachwedd 2020



Cefnllan: Rheoli'r newid o wartheg sugno i gig eidion o'r fuches laeth: Perfformiad da byw

Daethpwyd â'r holl loi i mewn ar ddechrau mis Rhagfyr ar fferm Cefnllan, i sied newydd wedi'i ddylunio gyda lloiau deltog. Mae'r ymgynghorydd maeth annibynnol, Hefin Richards, wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r ffermwr i lunio dogn ar gyfer lloi sy'n tyfu ac ar gyfer pesgi lloi.

Cafodd yr holl loi eu pwysu cyn mynd i mewn i'r sied, ac unwaith eto ar 3 Ionawr 2021. Mae'r 36 o loi pesgi (24 mis oed ar gyfartaledd) bellach yn pwysu 575kg ar gyfartaledd. Mae'r lloi wedi magu 2.1kg/dydd rhwng 3 Rhagfyr 2020 a 3 Ionawr 2021. Mae'r 98 llo iau (12 mis oed) yn pwysu 410kg ar gyfartaledd, ac wedi magu 1.5kg/dydd ar gyfartaledd ers dod i mewn i'r sied.




Ffigwr 3. Cofnodion pwysau lloi ar safle arddangos Cefnllan

Mae pob toriad silwair bellach wedi cael eu dadansoddi gydag ME cyfartalog o 11.5MJ/kg. Mae'r lluniau isod yn dangos sgrin luniau o'r ap meddalwedd Border Software, yn ogystal â'r Trutest Ezi-weigh 7 a ddefnyddir i gofnodi pwysau'r lloi. Mae pwysu'n rheolaidd a defnyddio technoleg ffermio manwl gywir yn hanfodol ar fferm Cefnllan er mwyn cofnodi a monitro pwysau'r lloi.



Ffigwr 4. Lloi yn y sied gyda llawr deltog ar safle arddangos Cefnllan



Ffigwr 5. Pwysu lloi gan ddefnyddio offer EID ar safle arddangos Cefnllan

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- GRADDIO ANSAWDD CIG EIDION YN EWROP: SYMUD AT GANFYDDIAD O ANSAWDD CIG EIDION SY'N SEILIEDIG AR DDEFNYDDWYR
- TECHNOLEGAU MANWL GYWIR DA BYWYN Y SECTOR MOCH
- RHEOLI A PHORITIR AR FFERMYDD YR UCHELDIR: SUT MAE GWNEUD HYNNY'N FWY CYNALIADWY'N AMGYLCHEDDOL
- LLYGREDD AER: RÔL AMAETHYDDIAETH YNG NGHYMRU
- LLYGREDD AER: LLEIHAU ALLYRIADAU AMMONIA DRWY ADDASU DULLIAU RHEOLI DA BYW
- YMWRTHEDD GWRTHFICROBAIDD (AMR): A ALL TECHNOLEGAU MANWL GYWIR HELPŪ?

Gweminarau

Cynhaliwyd **65** gyda **2061** o WYLYWR

GWEMINAR GYDA THEMÂU CIG COCH


Enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd:

Effeithlonrwydd pesgi wŷn

Bety's porthiant ar gyfer gwartheg biff

Cadw eich geifr yn hapus ac yn iach gan ganolbwyntio ar reoli llyngyr

Grwpiau Trafod



Nifer y Grwpiau Trafod Cig Coch: 36

Astudiaeth Achos

Roedd dau grŵp Trafod o Sir Feirionnydd wedi mynegi diddordeb mewn dysgu mwy am ôl troed carbon eu busnes, ac wedi gofyn i Dr Prysor Williams o Brifysgol Bangor i ddod i siarad â nhw fel grŵp.

Rhoddodd Dr Prysor Williams gyflwyniad diddorol iawn dros Zoom un noson, gan ganolbwyntio ar y newid mewn tueddiadau'r farchnad a gwerthoedd defnyddwyr, a sut y dylai hynny drosi yn gynhyrchiant cynradd.

Mae canran uchel o'r grŵp yn ffermwyr ucheldir, sy'n gyfarwydd â'r cysyniad o ffermio cynaliadwy trwy gynlluniau Llywodraeth Cymru megis Tir Gofal ac yna Glastir. Bu Prysor yn trafod y cam nesaf o ran cefnogaeth gan y llywodraeth a sut y bydd yn canolbwyntio ar nwyddau cyhoeddus.

Trafodwyd sut mae meincnodi eich busnes yn eich tywys rhan o'r ffordd tuag at gyfrifo ôl troed carbon y fferm, ond dylid gofalu eich bod yn defnyddio adnodd perthnasol a defnyddiol gan fod nifer o adnoddau cyfrifo carbon ar gael. Mae aelodau'r grŵp yn gyfarwydd â meincnodi drwy raglen Mesur i Reoli, ac roedd y mwyafrif yn awyddus i adeiladu ar hynny er mwyn datblygu dealltwriaeth o ôl troed carbon eu ffermydd eu hunain. Cafwyd trafodaeth ryngweithiol a diddorol rhwng y ffermwyr a Prysor, a'r teimlad cyffredinol oedd bod angen i ffermwyr gadw llygad ar y newidiadau sydd ar y gweill a pharatoi eu hunain ar gyfer y newid mewn ffocws o gynhyrchiant i ddarparu nwyddau cyhoeddus. Roedden nhw'n gweld y broses feincnodi fel cam cadarnhaol. Bydd y swyddog datblygu nawr yn cysylltu gyda Dr Prysor Williams i gynnal trafodaeth bellach ynglŷn â'r ffordd orau o adeiladu ar y data Mesur i Reoli a pha adnodd cyfrifo carbon fyddai fwyaf addas i sichau bod y ffermydd hyn yn cael canlyniadau gwerthfawr.

Cymorthfeydd

Cynhaliwyd 21 Cymhorthfa

Roedd y prif bynciau'n cynnwys:



Roedd busnes cig coch yn awyddus i dderbyn cyngor ar olyniaeth er mwyn diogelu'r busnes ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ar eu fferm deuluol.

Mae cymorthfeydd yn ddigwyddiadau traws-sector ac mae ffermwyr o bob sector yn mynychu, gan gynnwys ffermwyr o'r sector cig coch.

Rhaglen Fentora

22 FFERMWR CIG COCH NEWYDD YN DEFNYDDIO'R RHAGLEN FENTORA

MAE **455**

O FFERMWYR CIG COCH yn cael eu mentora ar hyn o bryd

MAE **82%**

O'R RHAIN YN FFERMWYR CIG COCH

9

O'R RHAIN YN FFERMWYR MOCH


Roedd mentai newydd yn chwilio am gyngor ar amrywiaeth o wahanol bynciau gan gynnwys:



Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid




Gweithdai a gynhaliwyd:



Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd **183** achos o hyfforddiant wyneb i wyneb o fewn y sector Cig Coch.

Unigolion a dderbyniodd hyfforddiant fesul categori



Y cyrsiau mwyaf poblogaidd ym mhob categori oedd:

Ceisiadau



E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

Clinigau Iechyd Anifeiliaid

Cynhaliwyd **134** CLINIG gyda **938** BUSNES

